

CRYNODEB GWEITHREDOL - ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O GYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL (CLAIR)

1. Mae ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAIR) yn ymateb i'r holl argymhellion a wnaed gan Syr Christopher Bellamy a'i banel cynghori. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar gynigion i ymateb i'w argymhellion a phynciau cysylltiedig yn unol â'r dull system gyfan a fabwysiadwyd yn CLAIR, sy'n cynnwys gwella ansawdd, technoleg newydd a gwaith parhaus i wella ymgysylltiad a phenderfyniad cynnar.
2. Amcanion cyffredinol y Llywodraeth ar gyfer ein cynigion wrth ymateb i CLAIR yw:
 - a. Defnyddio cymorth cyfreithiol i gynyddu effeithlonrwydd y system cyflawnder troseddol. Rydym yn gwneud hyn drwy gymell cyngor a phenderfyniad cynnar drwy fesurau nad ydynt yn ymwneud â ffioedd, diwygio'r cynlluniau ffioedd a dileu rhwystrau i wahanol fathau o ymarfer.
 - b. Diwygio'r cynlluniau ffioedd fel eu bod yn adlewyrchu'n deg, ac yn talu am y gwaith a wnaed. Rydym yn gwneud hyn drwy godi ffioedd yn y byr dymor, a thrwy ddiwygio'r cynlluniau ffioedd i adlewyrchu ymarfer modern yn well.
 - c. Cynyddu cynaliadwyedd a sefydlogrwydd y proffesiynau amddiffyn troseddol. Rydym yn gwneud hyn drwy fuddsoddi mewn ffioedd uwch, cefnogi mynediad i'r proffesiynau a datblygiad proffesiynol, a chreu Bwrdd Cynghori i helpu'r Arglwydd Ganghellor i fonitro ac ymateb i ddatblygiadau mewn ymarfer troseddol.

Codi ffioedd

3. Rydym yn argymhell codi bron pob un o gynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol 15% cyn gynted â phosibl. Nid yw hyn yn cynnwys cyfraith carchardai neu ddwy elfen (tudalennau o dystiolaeth yr erlyniad (PPE) a hyd y treial) o Gynllun Ffioedd Graddedig Ymgysylltiadau (LGFS). Byddai hyn yn ychwanegu £115m y flwyddyn ar lefel gyson, at ein niferoedd rhagamcanol o achosion ar gyfer 2024/25. Mae £20m ychwanegol pellach y flwyddyn yn cael ei gadw ar gyfer buddsoddiad arall gan gynnwys cynllun LGFS diwygiedig, y llys ieuenctid a chynaliadwyedd a datblygiad ymarfer cyfreithwyr sy'n golygu bod cyfanswm y buddsoddiad yn £135m ar lefel gyson.
4. Mae'r cynnydd hwn yn cyd-fynd ag argymhellion CLAIR, sef cynnydd cyffredinol o 15% i'r cynllun ffioedd. Gan adlewyrchu ar argymhellion CLAIR a blaenoriaeth y Llywodraeth i gefnogi ymgysylltiad a phenderfyniad cynnar i'r System Cyfiawnder Troseddol, nid ydym yn argymhell codi'r taliadau ar gyfer cyfraith carchardai y tro hwn. I osgoi gwreiddio cymhellion gwrthnysig ymhellach a materion eraill a nodwyd gan CLAIR, ac yn unol â'i argymhellion i ddiwygio, nid ydym yn argymhell buddsoddi cronfeydd ychwanegol yn yr elfennau PPE neu hyd treial LGFS y tro hwn.
5. Byddai tua 59% o'r cronfeydd sy'n gysylltiedig â'r cynnydd uniongyrchol yn cael eu derbyn gan gwmnïau cyfreithiol drwy orsaf yr heddlu, ynadon a chynlluniau LGFS. Byddai bargyfreithwyr yn derbyn 32% o'r cynnydd uniongyrchol. Mae'r 9% o'n cynnydd sy'n weddill ar gyfer ffioedd arbenigwyr.
6. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai buddsoddi mewn ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol yn gwella effeithlonrwydd y system cymorth cyfreithiol troseddol drwy

gymell ymgysylltiad a phenderfyniad cynnar lle bo'n briodol. Rydym hefyd yn credu y byddai'n gwella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd ymarfer amddiffyn troseddol ac yn cynyddu apêl ymarfer amddiffyn troseddol fel gyrfa i'r rhai o gefndiroedd llai traddodiadol, lleiafrifoedd a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Diwygio'r cynllun ffioedd

7. Rydym yn ymgynghori ar opsiynau i ddiwygio'r cynlluniau ffioedd. Mae rhai cynigion yn awgrymu opsiynau penodol – gan gynnwys sut i gryfhau amddiffyniad yn y llys ieuencid; tra bod eraill yn gofyn cwestiynau agored – mae hyn yn arbennig o wir o ran newidiadau sy'n ymwneud â gwaith paratoi ac achosion a.28 yn y Cynllun Ffioedd Graddedig Eirioli (AGFS) a diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig Ymglyfreitha (LGFS).
8. Rydym yn gwneud argymhellion yn unol â'r argymhellion yn CLAIR, neu eu cyflwyno ochr yn ochr ag opsiynau eraill. Mae'r Llywodraeth am weithredu cyn gynted â phosibl ac felly rydym yn ymgynghori ar argymhellion CLAIR lle bo'n bosibl, gan roi dewisiadau eraill lle bo gan y Llywodraeth opsiynau eraill a bod hynny'n bosibl neu o gymorth.
9. Bydd diwygiadau yn effeithio ar holl ymarferwyr cymorth cyfreithiol ym maes amddiffyn troseddol. Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd strwythurau ffioedd, sy'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn well, yn gwella effeithlonrwydd y system cymorth cyfreithiol troseddol drwy gymell ymgysylltiad a phenderfyniad cynnar lle bo'n briodol.

Diwygio'r cynllun nad yw'n ymwneud â ffioedd

10. Yn ogystal ag argymhellion ar lefelau ffioedd a strwythurau cynlluniau, gwnaeth CLAIR nifer o argymhellion nad oeddent yn ymwneud â ffioedd, a soniwyd am rai meysydd cysylltiedig eraill heb wneud argymhellion. Mae'r rhain yn cynnwys Bwrdd Cynghori, data, amrywiaeth, gweithwyr proffesiynol CILEX, y farchnad amddiffyn troseddol, gwella ansawdd a thechnoleg newydd.
 - a. Mae'r Llywodraeth yn argymhell sefydlu Bwrdd Cynghori i ddod â phartneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol at ei gilydd i gasglu data i lywio'r broses o lunio polisïau a chydweithio i ddarparu safbwynt y system cyfiawnder troseddol gyfan i lywio proses yr Arglwydd Ganghellor o wneud penderfyniadau ar bolisi cymorth cyfreithiol.
 - b. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol i dreialu dulliau newydd i gynnig cyngor cyfreithiol o bell yng ngorsafoedd yr heddlu i gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu rhag ymuno â'r math hwn o ymarfer (caiff merched eu heffeithio'n anghymesur). Rydym hefyd yn bwriadu gweithio gyda'r proffesiynau a'r rheoleiddwyr ar sut i hyrwyddo amrywiaeth gyda'n gilydd yn y proffesiynau.
 - c. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod gan weithwyr CILEX proffesiynol rôl allweddol yn y farchnad amddiffyn troseddol. Hoffem i weithwyr proffesiynol CILEX allu dod yn gyfreithwyr ar ddyletswydd heb orfod ymgymryd â chymwysterau

ychwanegol – mae hyn yn ychwanegol at waith arall y Llywodraeth i helpu i ddileu rhwystrau i ymarfer gweithwyr CILEX proffesiynol.

ch. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i farchnad gynaliadwy, amrywiol a sefydlog o ran amddiffyn troseddol, ac yn credu bod hynny'n dibynnu ar y ffioedd iawn a chyflenwad digonol o ymarferwyr. Rydym felly yn argymhell archwilio amrywiaeth o fesurau i gefnogi marchnad gyfnewidiol ac arloesol gan gynnwys adolygiad o'r Contract Troseddu Safonol. Yn unol â chanfyddiadau CLAIR bod yna her arbennig yn wynebu cynaliadwyedd proffesiwn cyfreithwyr troseddol, mae hyn yn cynnwys cefnogi contractau hyfforddi i gyfreithwyr troseddol a grantiau i gyfreithwyr eirioli gael hawliau lefel uwch.

d. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gyda'r rheoleiddwyr i sicrhau bod safonau ansawdd uchel yn cael eu cynnal a'u datblygu tra'n osgoi rhoi baich ar ymarferwyr.

dd. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn awyddus i gefnogi'r defnydd o arloesedd a thechnoleg newydd ym maes amddiffyn troseddol. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn argymhell treialu defnydd ehangach o ddarparu cyngor o bell yng ngorsafedd yr heddlu ac i gasglu barn ynglŷn â ble arall y gellir defnyddio technoleg newydd mewn ffordd bositif.

11. Nod y mesurau hyn yw gwella gweithrediad y farchnad amddiffyn troseddol gyfan a'r system gyfiawnder. Maent wedi'u cynllunio i wneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithlon – yn enwedig gyda thechnoleg newydd – a'r farchnad amddiffyn troseddol yn fwy cynaliadwy.